Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Children, Young People and Education Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

24 Ionawr 2014

Annwyl Gyfaill

## Ymchwiliad i Wasanaethau Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)

Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi cytuno i gynnal ymchwiliad i Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed. Mae'r Pwyllgor wedi cytuno i ganolbwyntio ar rai materion allweddol ynghylch gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed yng nghyd-destun diwygiadau Llywodraeth Cymru fel y nodir yn *Chwalu'r Rhwystrau*; gweithredu *Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010*; a strategaeth iechyd meddwl Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012, *Law yn Llaw at Iechyd Meddwl.*

Hoffai'r Pwyllgor glywed am:

- argaeledd gwasanaethau ymyrraeth gynnar ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl;
- mynediad at wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed arbenigol yn y gymuned yn haen 2 ac uwch ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl, gan gynnwys mynediad at therapïau seicolegol;
- i ba raddau y mae gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed yn cael eu hymgorffori o fewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ehangach;
- a yw gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed yn cael digon o flaenoriaeth o fewn gwasanaethau iechyd meddwl a gofal cymdeithasol ehangach, gan gynnwys dyrannu adnoddau i wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed;

/...

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg / Children, Young People and Education Committee
Gwasanaeth y Pwyllgorau / Committee Service
Ffôn / Tel : 029 2089 8429
Ebost / Email : CYPCommittee@wales.gov.uk

- unrhyw amrywiaeth rhanbarthol sylweddol o ran mynediad at wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed ledled Cymru;
- effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl sydd angen gwasanaethau brys;
- i ba raddau y mae'r ddarpariaeth bresennol o wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed yn hyrwyddo diogelu, hawliau plant a chynnwys plant a phobl ifanc; ac
- unrhyw faterion allweddol eraill a nodwyd gan randdeiliaid.

**Gwahoddiad i gyfrannu at yr ymchwiliad**

Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymatebion yn Gymraeg neu'n Saesneg gan unigolion a sefydliadau, a bydd yn cynnal sesiynau tystiolaeth lafar maes o law.

Ni ddylai'r dystiolaeth fod yn hwy na phum ochr tudalen A4. Dylid rhifo'r paragraffau, a dylai'r dystiolaeth ganolbwyntio ar y cylch gorchwyl fel y'i nodir uchod.

Os hoffech gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig (**ni** ddylai fod ar ffurf dogfen PDF yn ddelfrydol) i'r PwyllgorPPI@cymru.gov.uk.

Fel arall, gallwch ysgrifennu at:

Clerc y Pwyllgor
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, CF99 1NA

Dylai unrhyw dystiolaeth gyrraedd erbyn **Dydd Gwener 28 Chwefror 2014**. Mae'n bosibl na fydd modd ystyried unrhyw ymateb a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

**Datgelu Gwybodaeth**

Mae'n arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi tystiolaeth a ddarperir i Bwyllgor. O ganlyniad, efallai y bydd eich ymateb yn ymddangos mewn adroddiad neu mewn tystiolaeth ategol sy'n rhan o adroddiad. Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi gwybodaeth yr ystyrir ei bod yn ddata personol.

Os cawn gais am wybodaeth o dan ddeddfwriaeth y DU, mae'n bosibl y bydd angen datgelu'r wybodaeth a gawsom gennych. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a ddilëwyd cyn hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion cyhoeddi.

/...

Os byddwch yn darparu unrhyw wybodaeth, ac eithrio data personol, nad yw'n addas i'w datgelu i'r cyhoedd yn eich barn chi, eich cyfrifoldeb chi yw nodi pa rannau na ddylid eu cyhoeddi a rhoi dadl resymol dros hyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.

**Ann Jones AC**
Cadeirydd